## Sut y mae'r Bwrdd yn penderfynu ar gyflog yr Aelodau?

Mae'r Bwrdd yn annibynnol; mae hyn yn golygu ein bod ar wahân i'r Senedd a Llywodraeth Cymru. Mae ein penderfyniadau ar gyflog Aelodau a Gweinidogion yn ddiduedd ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

Mae Aelodau o'r Senedd â rhan hanfodol yn ein democratiaeth ac rydym yn credu y dylai eu cyflog adlewyrchu'r rôl honno a'u cyfrifoldebau.

**Nid yw Aelodau a Gweinidogion yn penderfynu ar eu cyflog eu hunain**

Mae ar Weinidogion a rhai Aelodau eraill, a benodir gan y Senedd, ddyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol (er enghraifft, cadeirydd pwyllgor) ac felly maent yn cael cyflog uwch, sef 'cyflog deiliad swydd ychwanegol' y mae'r Bwrdd yn penderfynu arno. Dim ond un cyflog ychwanegol a gaiff ei dalu i'r Aelodau hynny, hyd yn oed os ydynt yn cyflawni rolau lluosog yn y Senedd.

**Mae rhaid i'r Bwrdd bennu cyflog yr Aelodau cyn pob etholiad Senedd ac ni chaiff wneud newidiadau oni bai bod amgylchiadau eithriadol**

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth a chydraddoldeb. Ein nod yw lleihau'r rhwystrau fel bod y Senedd yn adlewyrchu cymdeithas, lle y gall unrhyw un, ni waeth beth yw ei gefndir neu ei amgylchiadau, ystyried dod yn Aelod o'r Senedd.

Mae'n gyfreithiol ofynnol i'r Bwrdd wneud penderfyniadau ar gyflog Aelodau a Gweinidogion cyn etholiad Senedd a dim ond os oes amgylchiadau eithriadol y cawn wneud newidiadau.

Mae'r penderfyniadau ar gyflog Aelodau a Gweinidogion yn cael eu llywio gan y data economaidd diweddaraf, meincnodau cyflog â swyddi eraill ac ymchwil gymharol. Mae'r Bwrdd yn ymgynghori'n gyhoeddus cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

**Bydd cyflog yr Aelodau'n newid yn flynyddol yn unol ag enillion cyfartalog Cymru**

Rydym wedi penderfynu bod y lefelau cyflog presennol ar gyfer Aelodau, Gweinidogion ac uwch rolau eraill yn briodol; bydd cyflogau'n gysylltiedig yn flynyddol yn unol â newidiadau yn enillion cyfartalog Cymru (mynegai SYG o'r enw ASHE Cymru).